Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005

Canllaw cryno

Yn 2003/04 roedd cwympo o uchder yn gyfrifol am 67 o ddamweiniau angheuol yn y gwaith a bron i 4000 o anafiadau difrifol. Dyma yw'r achos unigol mwyaf o farwolaethau yn y gweithle o hyd ac un o'r prif achosion o anafiadau difrifol.

Mae'r daflen hon wedi'i hysgrifennu ar gyfer cyflogwyr, pobl hunangyflogedig ac unrhyw un sy'n gweithio ar uchder. Mae'n dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud i gydymffurfio â Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i bob gwaith ar uchder lle mae risg o gwympo a fyddai'n achosi anaf personol.

Defnyddio'r wybodaeth hon

1 Mae'r daflen hon yn crynhoi'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i gydymffurfio â Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005. Efallai y bydd rhai cymdeithasau diwydiant/masnach wedi cynhyrchu canllawiau manylach am weithio ar uchder. Gallwch hefyd gael mwy o wybodaeth ar wefan HSE.

2 Mae'r daflen wedi'i hysgrifennu fel y gellid ei defnyddio, yn y rhan fwyaf o achosion, heb gyfeirio at y Rheoliadau. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol cael y Rheoliadau wrth law os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Pam mae'r rheolau hyn yn bwysig?

3 Gwnaed y Rheoliadau hyn er mwyn atal marwolaethau ac anafiadau a achosir bob blwyddyn oherwydd cwympo yn y gwaith.

4 Maent yn disodli'r holl reoliadau cynharach am weithio ar uchder. Mae Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 yn cyfuno deddfwriaeth flaenorol ar weithio ar uchder ac maent yn gweithredu Cyfarwyddeb 2001/45/EC y Cyngor Ewropeaidd yn ymwneud ag isafswm y gofynion diogelwch ac iechyd ar gyfer defnyddio offer i weithio ar uchder (y Gyfarwyddeb Gweithio ar Uchder Dros Dro).

Beth yw 'gweithio ar uchder'?

Rheoliad 2

5. Mae lle 'ar uchder' os (oni ddilynir y Rheoliadau hyn) gallai person gael ei anafu wrth gwympo ohono, hyd yn oed os yw ar lefel y ddaear, neu'n is.

6. Mae ‘gwaith’ yn cynnwys symud o gwmpas mewn gweithle (ac eithrio ar risiau mewn gweithle parhaol) ond nid yw’n cynnwys teithio i weithle, neu oddi yno. Er enghraifft, byddai cynorthwyydd siop ar ysgol yn gweithio ar uchder, ond ni fyddem yn tueddu i gymhwyso’r Rheoliadau i heddwas yn marchogaeth ar batrôl.

Beth y mae Atodlenni’r Rheoliadau yn eu cwmpasu?

7. Maent yn cwmpasu gofynion manwl ar gyfer:	Atodlen
gweithleoedd sy’n bodoli eisoes a dull mynediad ar gyfer gweithio ar uchder	1
atal cwympo cyfunol (e.e. rheiliau gwarchod a byrddau troed)	2
llwyfannau gweithio	3
rhwystrau cyfunol rhag cwympo (e.e. rhwydi, bagiau aer ac ati)	4
diogelwch personol rhag cwympo (e.e. atalfeydd gwaith, lleoli gwaith, atal cwympo a mynediad at raff)	5
ysgolion	6
adroddiadau arolygu (ar gyfer platfformau gwaith ym maes adeiladu yn unig)	7
diddymiadau	8

A yw’r rheolau’n berthnasol i chi?
Rheoliadau 3 ac 14

8. Mae Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 yn berthnasol i bob gwaith lle mae risg o gwympo a allai achosi anaf personol. Maent yn rhoi dyletswyddau ar gyflogwyr, yr hunangyflogedig ac unrhyw berson sy’n rheoli gwaith eraill (e.e. rheolwyr cyfleusterau neu berchnogion adeiladau a allai gontractio eraill i weithio ar uchder o ran y graddau y maent yn rheoli’r gwaith.

9. Nid yw’r Rheoliadau’n berthnasol i ddarparu cyfarwyddyd neu arweiniad â thal ym maes ogofâu neu ddringo fel chwaraeon, gweithgaredd hamdden, gweithgaredd tîm neu weithgareddau tebyg.

10. Os ydych yn gyflogai neu’n gweithio o dan reolaeth rhywun arall, mae rheoliad 14 yn dweud bod yn rhaid i chi:

- ddweud wrthynt am unrhyw berygl
- defnyddio’r offer a ddarparwyd (gan gynnwys dyfeisiau diogelwch yn gywir, gan ddilyn unrhyw hyfforddiant a chyfarwyddiadau (oni bai eich bod yn meddwl y byddai hynny yn anniogel, ac os felly dylech geisio mwy o gyfarwyddiadau cyn parhau).

Achosion arbennig
Rheoliadau 3, 15 ac 16 ac Atodlen 2

11. Mewn achosion penodol gall y rheoliadau fod yn berthnasol y tu hwnt i Brydain Fawr. (I gael manylion, gweler rheoliad 3(1).)

12. Mae rhai eithriadau ar gyfer llongau, gosodiadau ar y môr, a dociau. (Am fanylion gweler rheoliadau 3(4) - 3(6) ac 16.) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn eithrio pobl a sefydliadau sy’n gweithredu er budd diogelwch y wlad.

13. Gallwch ofyn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eithrio rhai pobl, eiddo, offer neu weithgareddau o rai o'r rheoliadau sy'n ymwneud â rheiliau gwarchod a phethau tebyg, ond bydd rhaid i chi ddangos nad oes risg i ddiogelwch unrhyw un. Am fanylion gweler rheoliad 15 ac Atodlen 2.)

Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud fel cyflogwr

Egwyddor sylfaenol
Rheoliad 6(3)

14 Mae'n rhaid i chi wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i atal unrhywun rhag cwympo.

Hierarchaeth y Rheoliadau
15 Mae'r Rheoliadau yn gosod hierarchaeth syml ar gyfer rheoli a dewis offer ar gyfer gweithio ar uchder.

Mae'n rhaid i ddeiliaid dyletswyddau:

- osgoi gweithio ar uchder lle bo hynny'n bosibl
- defnyddio offer gwaith neu fesurau eraill i atal pobl rhag cwympo pan na allant osgoi gweithio ar uchder;
- lle na ellir osgoi'r risg o gwympo, defnyddio offer gwaith neu fesurau eraill i leihau'r uchder a goblygiadau'r gwymp, os bydd cwymp yn digwydd.

Cyfrifoldebau Deiliaid Dyletswydd

16 Mae'r Rheoliadau yn gofyn bod deiliaid dyletswydd yn sicrhau:

- bod yr holl waith ar uchder yn cael ei gynllunio a'i drefnu'n gywir;
- bod yr holl waith ar uchder yn ystyried tywydd a allai beryglu iechyd a diogelwch;
- bod pobl sy'n gweithio ar uchder wedi'u hyfforddi a'u bod yn gymwys.
- bod lleoliad y gwaith ar uchder yn ddiogel;
- bod offer ar gyfer gweithio ar uchder yn cael ei archwilio'n briodol;
- y caiff risgiau yn sgîl arwynebau bregus eu rheoli'n gywir;
- y caiff risgiau yn sgîl gwrthrychau'n cwympo eu rheoli'n gywir.

Cynllunio
Rheoliadau 4 a 6 (1, 2)

17 Mae'n rhaid i chi:

- sicrhau na chaiff unrhyw waith ei wneud ar uchder os yw'n ddiogel ac yn rhesymol ymarferol ei wneud mewn ffordd arall;
- sicrhau y caiff y gwaith ei gynllunio'n gywir, ei oruchwylio'n gywir, a'i gynnal yn y ffordd fwyaf diogel ag sy'n rhesymol ymarferol;
- cynllunio ar gyfer achosion brys ac achub;
- ystyried yr asesiad risg a wnaed o dan reoliad 3 o Reoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

Tywydd
Rheoliad 4 (3, 4)

18 Mae'n rhaid i chi sicrhau y caiff y gwaith ei ohirio pan fydd y tywydd yn peryglu iechyd neu ddiogelwch (ond nid yw hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau brys yn ystod achos brys).

Hyfforddi staff
Rheoliadau 5 a 6(5)(b)

19. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r gwaith yn gymwys (neu, os yw'r person dan hyfforddiant, y caiff ei oruchwylio gan berson cymwys). Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at drefnu, cynllunio, goruchwylio a chyflenwi a chynnal a chadw offer.

20. Lle nad yw rhagofalon eraill yn cael gwared ar y risg o gwympo'n gyfan gwbl, mae'n rhaid i chi hyfforddi (i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol i wneud hynny) y bobl a fydd yn gweithio ar uchder sut i osgoi cwympo, a sut i osgoi neu leihau anafiadu eu hunain os byddant yn cwympo.

Lleoliad y gwaith
Rheoliad 6(4)

21. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod lleoliad y gwaith ar uchder (gan gynnwys y ffordd o gael mynediad i'r lleoliad) yn ddiogel a bod ganddo nodweddion i atal cwympo, oni bai fod hyn yn golygu nad yw'n rhesymol ymarferol i'r gweithiwr wneud y gwaith yn ddiogel (gan ystyried gofynion y dasg, yr offer a'r amgylchedd gweithio). Nodir gofynion diogelwch manwl ynglŷn â lle y caiff gwaith ar uchder ei wneud yn Atodlen 1.

Offer, strwythurau dros dro a nodweddion diogelwch
Rheoliadau 6(4)(b), 6(5)(a, b), 7, 8 a 12

22 Os byddwch yn dibynnu ar yr eithriad ym mharagraff 21 uchod, bydd yn rhaid i chi ddarparu offer ar gyfer atal cwympo (i'r graddau y mae hyn yn rhesymol ymarferol).

23 Os na fydd y rhagofalon ym mharagraffau 21 a 22 yn cael gwared ar y risg o gwympo yn gyfan gwbl, mae'n rhaid i chi wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i leihau pellter a difrifoldeb y gwymp.

24. Pan fyddwch yn dewis offer ar gyfer gweithio ar uchder, bydd yn rhaid i chi:

- Ddewis yr offer mwyaf priodol
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i fesurau diogelu cyfunol (e.e. rheiliau gwarchod) na mesurau gwarchod personol (e.e. harneisiau diogelwch);
- Ystyried:
    - yr amodau gwaith
    - risgiau i ddiogelwch pawb sydd yn y lleoliad lle y caiff yr offer ei ddefnyddio.

25. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr holl offer, strwythurau dros dro (e.e. sgaffaldiau) a nodweddion diogelwch yn cydymffurfio â gofynion manwl Atodlenni 2 hyd 6.

Archwiliadau
Rheoliadau 12 a 13

26. Diffinnir 'Archwiliad' gan reoliad 12(10) fel 'archwiliad gweledol neu fwy manwl gan berson cymwys fel sy'n briodol at ddibenion diogelwch … (gan gynnwys) unrhyw brofion sy'n briodol at y dibenion hynny'.

27. Mae'n rhaid i chi sicrhau (i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol) y caiff pob lleoliad unigol lle y caiff gwaith ar uchder ei wneud ei wirio ar bob achlysur cyn i'r lleoliad gael ei ddefnyddio. Mae hyn yn golygu gwirio'r arwyneb a phob parapet, rheilen ac ati.

28. Mae'n rhaid i chi sicrhau y caiff unrhyw eitem o'r math y sonnir amdani yn Atodlenni 2 hyd 6 ei archwilio:

- ar ôl ei rhoi at ei gilydd neu ei gosod (neu ar ôl ei rhoi at ei gilydd a'i gosod os oes angen gwneud y ddau), os yw ei diogelwch yn dibynnu ar sut y caiff ei rhoi at ei gilydd neu ei gosod;
- mor aml ag sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch, ac yn enwedig i sicrhau y gellir canfod a chywiro unrhyw ddirywiad mewn da bryd.

29 Mae'n rhaid i chi sicrhau bod gan unrhyw offer a gawsoch gan fusnes arall neu unrhyw offer sy'n gadael eich busnes, arwydd (sy'n amlwg i bawb) bod yr archwiliad diwethaf sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn wedi'i gynnal, cyn i chi ei ddefnyddio.

Nodyn: Nid yw hyn yn berthnasol i offer codi a reolir gan reoliad 9(4) Rheoliadau Offer Codi a Gweithrediadau Codi 1998, ond gan fod y rheol honno yn debyg i'r un hon nid oes llawer o wahaniaeth ymarferol.

30 Mae'n rhaid i chi sicrhau y caiff unrhyw lwyfan a ddefnyddir ar gyfer gwaith adeiladu (neu fynediad i waith adeiladu) y gall person gwympo mwy na 2m ohono, ei archwilio yn ei le cyn y caiff ei ddefnyddio (a dim mwy na saith niwrnod cyn y caiff ei ddefnyddio). Pan fydd yn blatfform symudol, mae archwiliad yn y lleoliad yn ddigonol heb orfod ei ail-archwilio bob tro y caiff ei symud.

Nodiadau: Diffinnir 'gwaith adeiladu' yn fanwl yn rheoliad 2(1) Rheoliadau Adeiladu (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1996 ond yn gyffredinol, mae'n golygu 'cynnal unrhyw waith adeiladu, peirianneg sifil neu waith adeiladu peirianneg'.
Rhoddir diffiniad bras o'r gair 'Llwyfan' yn rheoliad 2, ac mae'n cynnwys ardaloedd megis grisffyrdd a phontydd.

31 Mae'n rhaid i chi sicrhau bod y person sy'n archwilio llwyfan (fel sy'n ofynnol ym mharagraff 30):

- yn paratoi adroddiad cyn mynd oddi ar ddyletswydd, gan nodi'r manylion a restrir yn Atodlen 7;

- yn rhoi'r adroddiad (neu gopi ohono), o fewn 24 awr o gwblhau'r archwiliad, i'r person y gwnaed yr adroddiad ar ei gyfer (e.e. chi neu'ch rheolwr safle).

32 Mae'n rhaid i chi gadw adroddiad archwiliad llwyfan a wnaed yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd ym mharagraffau 30 a 31:

- ar y safle adeiladu nes y caiff y gwaith ei gwblhau;
- yna, yn un o'ch swyddfeydd am dri mis arall.

33 Mae 'cadw' adroddiad yn golygu ei gadw (neu gadw copi) yn ddiogel rhag cael ei golli a rhag ymyrraeth heb awdurdod, fel y gellir darparu copi caled pan fydd angen.

34 Mae'n rhaid i chi gadw pob cofnod arall o'r archwiliad nes i'r archwiliad nesaf gael ei gynnal.

35 Nid yw paragraffau 31 i 33 yn berthnasol i offer codi a reolir gan reolau tebyg yn rhinwedd rheoliadau 9 a 10 o Reoliadau Offer Codi a Gweithrediadau Codi 1998.

Arwynebau bregus
Rheoliad 9

36 Mae'n rhaid i chi sicrhau nad oes neb sy'n gweithio o dan eich rheolaeth chi yn mynd ar, neu'n agos at, arwynebau bregus oni bai mai dyma'r unig ffordd resymol-ymarferol i'r gweithiwr wneud y gwaith yn ddiogel, gan ystyried gofynion y dasg, yr offer neu'r amgylchedd gweithio.

37 Os bydd unrhyw un yn gweithio ar, neu'n agos at, arwynebau bregus, mae'n rhaid i chi:

- sicrhau (i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol) bod llwyfannau, gorchuddion, rheiliau gwarchod, a phethau tebyg addas yn cael eu darparu (a'u defnyddio) i leihau'r risg;
- gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol, os bydd risg o gwympo o hyd, i leihau pellter ac effaith cwymp.

38 Os gallai unrhyw un a fydd yn gweithio o dan eich rheolaeth fynd ar, neu'n agos at, arwynebedd bregus, mae'n rhaid i chi wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i'w gwneud yn ymwybodol o'r perygl, os yn bosibl drwy hysbysiadau rhybuddio amlwg parhaol ger yr ardal beryglus.

Gwrthrychau'n cwympo
Rheoliadau 10 ac 11

39 Lle bo hynny'n angenrheidiol er mwyn atal anaf, mae'n rhaid i chi wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i atal unrhyw beth rhag cwympo.

40 Os nad yw'n rhesymol ymarferol, mae'n rhaid i chi sicrhau na chaiff unrhyw un ei anafu gan bethau'n cwympo.

41 Mae'n rhaid i chi sicrhau na chaiff dim byd:

- ei daflu neu ei arllwys o uchder os yw'n debygol o anafu unrhyw un;
- ei storio mewn ffordd sy'n golygu y gallai ei symud anafu rhywun.

42 Os yw'r gweithle'n cynnwys ardal lle mae risg y bydd rhywun yn cael ei daro gan wrthrych neu berson yn cwympo, mae'n rhaid i chi sicrhau y caiff yr ardal ei dynodi'n amlwg ac nad yw pobl heb awdurdod yn gallu mynd yno (i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol).

Darllen Pellach

Os nad ydych yn siŵr am rywbeth, cysylltwch â'ch swyddfa HSE leol (mae'r cyfeiriad yn y llyfr ffôn). Gall y staff yno eich cyfeirio at yr archwilydd addas neu swyddog iechyd yr amgylcheddol eich awdurdod lleol.

Deddfwriaeth

Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 SI2005/735 Y Llyfrfa 2005 (Ar gael ar-lein yn *www.hmso.gov.uk/si/si20050735.htm*)

Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 SI 1999/3242 Y Llyfrfa 1999 ISBN 0 11 085625 2

Rheoliadau Offer Codi a Gweithrediadau Codi 1998 SI 1998/2307 Y Llyfrfa 1998 ISBN 0 11 079598 9

Rheoliadau Adeiladu (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1996 SI 1996/1592 Y Llyfrfa 1996 ISBN 0 11 035904 6

Gwefan ddefnyddiol

Gwefan yr HSE am gwympo o uchder: www.hse.gov.uk/falls

Gwybodaeth bellach

Mae cyhoeddiadau'r HSE ar gael ar werth ac am ddim drwy'r post o
HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk C010 2WA
Ffôn 01787 881165 Ffacs: 01787 313995
Gwefan: *www.hsebooks.co.uk* (mae cyhoeddiadau'r HSE ar werth o siopau llyfrau hefyd, a gellir lawrlwytho taflenni am ddim o wefan yr HSE: www.hse.gov.uk)

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch, ffoniwch llinell wybodaeth HSE
Ffôn: 0845 345 0055 Ffacs: 0845 408 9566
e-bost: *hseinformationservices@natbrit.com* neu ysgrifennwch at Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae cyhoeddiadau Y Llyfrfa ar gael o The Stationery Office, PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Ffôn: 0870 600 5522 Ffacs:0870 600 5533
e-bost: *customer-services@tso.co.uk* Gwefan: *www.tso.co.uk*
(Maent hefyd ar gael o siopau llyfrau.)

Cyhoeddir y canllawiau hyn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a diogelwch. Nid oes rhaid dilyn y canllawiau, ac mae rhyddid gennych i weithredu fel arall. Ond os byddwch yn dilyn y canllawiau, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith a gallant gyfeirio at y canllawiau hyn fel enghraifft o arfer da.

Mae'r daflen hon ar werth mewn pecynnau o 10 o HSE Books, ISBN 0 7176 2976 7.
Mae copïau sengl am ddim hefyd ar gael o HSE Books.

(h) *Hawlfraint y Goron* Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, ardystio neu fasnachol. Cyhoeddwyd gyntaf 04/05. Cydnabyddwch yr HSE fel y ffynhonnell.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch